# Datblygu cynulleidfaoedd â nam ar eu golwg yng Nghymru

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

## Cynnwys


**1 Cyflwyniad** 6

**2 Pam creu pecyn cymorth?** 7

**3 Y Model Cymdeithasol o Anabledd – Pam y mae darparu mynediad yn bwysig** 10

**4 Camau cyntaf: Deall nam ar y golwg** 14

**5 Iaith** 16

Myth 'Dallineb' 17

Gallu dweud 18

**6 Rhyngweithio â chwsmeriaid a chyflogeion â nam ar eu golwg** 20

**7 Yr hyn y gallwch chi ei wneud** 25

Sut i wneud eich cynhyrchiad yn hygyrch 25

Disgrifio clywedol 25

Ymgynghorwyr disgrifio clywedol 26

Teithiau Cyffwrdd 27

Blychau model 28

Marchnata 28

Estyn allan 31

| | |
|---|---|
| Cyllidebu | 32 |
| Gwefan | 33 |
| Sut i wneud eich lleoliad yn hygyrch | 35 |
| Prynu tocynnau | 35 |
| Gwybodaeth am drafnidiaeth ac am y lleoliad | 36 |
| Cynlluniau cardiau/aelodaeth | 37 |
| Tocyn/nau am ddim i gymdeithion | 38 |
| Consesiwn person anabl | 38 |
| Hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o nam ar y golwg | 39 |
| System bydis | 40 |
| Mynediad ffisegol – Archwiliadau hygyrchedd | 41 |
| Deunyddiau marchnata lleoliad – fformatau hygyrch | 42 |
| Cyfathrebu rhwng adrannau | 42 |
| Hysbysebu'r hyn yr ydych yn ei gynnig | 44 |
| **8 Cyrraedd Eich Cynulleidfa** | 46 |

| | | |
|---|---|---|
| **9** | **Mynediad: Cyfrifoldeb Pwy?** | 51 |
| **10** | **Disgrifio Clywedol** | 54 |
| | Disgrifio clywedol ‘traddodiadol’ | 54 |
| | Disgrifio clywedol integredig | 56 |
| **11** | **Ymgynghorwyr Disgrifio Clywedol** | 61 |
| | Ffioedd | 62 |
| **12** | **Teithiau Cyffwrdd** | 64 |
| | Awgrymiadau ar gyfer teithiau cyffwrdd | 65 |
| **13** | **Astudiaeth Achos:** *The Importance of Being Described... Earnestly?* | 68 |
| | Cynhyrchu | 69 |
| | Fformatau marchnata hygyrch | 70 |
| | Rhyngweithio â lleoliadau | 71 |
| | Ymateb y gynulleidfa | 73 |
| **14** | **Rhestr Wirio** | 74 |
| **15** | **Cysylltiadau Defnyddiol** | 78 |

Mae tua 107,000 o bobl ddall a rhannol ddall yn byw yng Nghymru a dros y 25 mlynedd nesaf disgwylir i’r nifer hon ddyblu.

RNIB Cymru, 2018

# 1 Cyflwyniad

Mae'r pecyn cymorth hwn i leoliadau a chwmnïau ar draws Cymru ddatblygu a darparu ar gyfer cynulleidfaoedd â nam ar eu golwg. Yma fe gewch amrywiaeth o wybodaeth ynghylch sut i wneud eich gwaith neu'ch lleoliad yn fwy croesawgar a hygyrch a sut i feithrin a chadw cynulleidfa â nam ar eu golwg.

Mae wedi cael ei lunio gan yr ymarferydd theatr ac ymgynghorydd â nam ar ei golwg, Chloë Clarke, a Chelfyddydau Anabledd Cymru i Gyngor Celfyddydau Cymru. Mae'r wybodaeth a roddir yn ffrwyth ymchwil ofalus a thrafodaethau gyda phobl â nam ar eu golwg ar draws Cymru, yn ogystal â chanfyddiadau o arolygon ac astudiaethau achos. Rydym hefyd wedi siarad yn helaeth â gweithwyr proffesiynol, cwmnïau a lleoliadau o wahanol feintiau ym maes y celfyddydau i ganfod y rhwystrau rydych yn eu hwynebu wrth ddarparu mynediad. Ein nod yw mynd i'r afael â'r rhwystrau hyn a'ch helpu i ganfod atebion fel y gall mynediad i'r theatr yng Nghymru ddod yn fwy cyffredin ac fel y gallwch feithrin cynulleidfa ehangach a mwy amrywiol.

## 2 Pam creu pecyn cymorth?

Ein nod yw cynyddu ymwybyddiaeth ymysg ymarferwyr theatr a lleoliadau celfyddydol ynghylch y ffordd orau i ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd â nam ar eu golwg a sut i ryngweithio gyda ni.

Mae'n glir i ni bod llawer o bobl yn awyddus i ddysgu mwy am fynediad ac i roi'r dysgu hwn ar waith. Ein gobaith yw y bydd darparu canllawiau defnyddiol ac ymarferol yn arwain at wneud cynnydd yn gyflymach wrth feithrin dealltwriaeth o ddarpariaethau mynediad, ac wrth eu rhoi ar waith, ar draws y celfyddydau yng Nghymru.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymarferwyr celfyddydol yr ymgynghorwyd â nhw wrth greu'r pecyn cymorth hwn yn cytuno bod llawer mwy i'w wneud o hyd lle mae mynediad i bobl â nam ar eu golwg dan sylw, ac nad ydynt yn siŵr sut i'w wneud.

Mae'r arweiniad hwn wedi'i fwriadu i dynnu sylw at y pethau y gall pawb eu gwneud ar draws adrannau, sefydliadau a chwmnïau, ac fel

unigolion, i gydweithio er mwyn ysgogi'r math o newid mae ei angen go iawn. Byddwn hefyd yn rhoi gwybodaeth ynghylch ble i fynd i gael rhagor o arweiniad.

“Roedd y drws i’r celfyddydau a diwylliant ar gau i mi oherwydd roeddwn i’n meddwl nad oedden nhw wedi’u gwneud i mi. Wyddwn i ddim bod yna ddisgrifio clywedol yn y theatr – byddwn i’n ei ddefnyddio yn y sinema ond doeddwn i ddim yn sylweddoli ei fod yn bodoli mewn mannau eraill. Mae wedi rhoi’r hyder imi gredu y gallwn i gymryd rhan – erbyn hyn dwi’n perfformio, dwi wedi dechrau ymhél ag ysgrifennu a dwi’n feirniad cymunedol.”

# 3 Y Model Cymdeithasol o Anabledd – Pam y mae darparu mynediad yn bwysig

Mae'r model cymdeithasol yn esbonio bod anabledd yn bodoli nid oherwydd bod namau gan unigolion, ond oherwydd nad yw'r gymdeithas wedi'i strwythuro i gynnwys y rheiny sydd â namau. Mae'r gymdeithas yn codi llawer o rwystrau ffisegol a rhwystrau o ran agwedd i'r rheiny ohonom sydd â namau; yr hyn sy'n ein gwneud ni'n anabl yw peidio â rhoi mynediad i ni i bethau y gall pobl sydd heb namau gael mynediad iddynt yn hawdd.

Cafodd y model hwn ei gyflwyno gan bobl anabl wrth ymateb i fodelau a fodolai ynghynt, modelau a osodwyd gan bobl heb anableddau, oedd yn hyrwyddo'r agwedd bod ar bobl anabl angen eu trwsio (model meddygol) neu gael gofal (model elusen) yn hytrach na'n cydnabod ni fel unigolion annibynnol gyda chymaint o werth cynhenid â phawb arall. Yn gryno: nid ein namau sy'n ein gwneud yn anabl, ond y gymdeithas.

Mae llawer o rwystrau ffisegol ac o ran agwedd yn bodoli yn y celfyddydau. Nid yn unig mae helpu i chwalu'r rhwystrau hyn a darparu mwy o fynediad yn cynyddu'ch cynulleidfa, mae hefyd yn mynd i'r afael â'r anghydbwysedd, anghydraddoldeb a diffyg cynhwysiant sy'n bodoli ledled ein diwydiant. Mae'n galw am ymrwymiad hirdymor i ddarparu mynediad yn gyson ond hefyd angen i fynd i'r afael â'ch rhagdybiaethau chithau am anabledd a newid eich meddylfryd er mwyn bod yn gynghreiriad i bobl anabl a deall yn iawn y rhwystrau a wynebwn.

Waeth a yw pobl yn achub ar y cyfle i ddefnyddio'r mynediad a ddarparwch - neu hyd yn oed os nad ydynt yn ei hoffi - rhaid i hyn beidio ag effeithio ar eich parodrwydd i'w ddarparu. Mae pawb yn wahanol ac â chwaeth wahanol, felly 'does neb yn cael pethau'n gwbl iawn bob amser. Mae'n cymryd amser i feithrin cynulleidfa, yn arbennig un sydd wedi cael ei hallgau yn draddodiadol, felly byddwch yn amyneddgar ac yn gyson.

I gael mwy o wybodaeth am y model cymdeithasol o anabledd, dyma fideo defnyddiol gan Scope: https://www.scope.org.uk/about-us/social-model-of-disability/

“Ymddengys fod pobl yn taflu’r geiriau hyn o gwmpas – “hygyrchedd”, “cynhwysiant” ac ati, ond ’dyw e ddim yn cael ei yrru ymlaen mor bell â hynny – a ’dyw pobl ddim hyd yn oed yn gwybod beth mae’n ei olygu i’r bobl sy’n ei ddefnyddio.”

# 4 Camau Cyntaf: Deall am ar y golwg

Mae nifer helaeth o wahanol fathau o nam ar y golwg – mae’r ffordd mae’r nam yn effeithio ar unigolyn mor unigryw â’r unigolyn ei hun. Felly, nid oes math o fynediad sydd ‘yr un fath i bawb’, ond mae digonedd o elfennau cyffredin sy’n golygu y bydd rhai mathau o ddarpariaeth mynediad yn addas i’r rhan fwyaf o bobl.

Yn bwysicaf oll, yr agwedd a gymerwch at ryngweithio gyda chwsmeriaid neu gyflogeion â nam ar eu golwg fydd yn sicrhau cydraddoldeb a phrofiad cadarnhaol i bawb

- Dylai pobl mewn swyddi sy’n ymdrin â chwsmeriaid fod yn naturiol ac yn gyfforddus wrth siarad â chwsmeriaid â nam ar eu golwg. Caiff hyn ei wneud yn haws os oes ganddynt wybodaeth gyfredol am y ddarpariaeth mynediad mae eu cwmni neu eu lleoliad yn ei chynnig.

  I hyn ddigwydd, mae angen hwyluso ymwybyddiaeth ar draws y sefydliad.

- Mae’n bwysig sgwrsio neu ryngweithio yn naturiol ac yn agored er mwyn canfod yr hyn mae arnom ei angen. Os ydych yn ansicr, gofynnwch.

## 5 Iaith

I’ch helpu i fod yn hyderus wrth siarad yn blaen am nam ar y golwg ac wrth ofyn cwestiynau, dyma ganllaw i’r iaith yr ydym yn ei defnyddio fel arfer i ddisgrifio ein hunain:

- Person â nam ar ei olwg yw’r term a ddefnyddir amlaf.

- Rhannol ddall neu ddall – mae hyn hefyd yn berffaith arferol a derbyniol.

- Colli golwg – mae rhai pobl yn sôn amdanynt eu hunain fel pobl sydd wedi colli golwg, er bod y term hwn yn cael ei ddefnyddio’n fwy gan sefydliadau, at ei gilydd.

Bydd yr iaith yn amrywio yn ôl amgylchiadau a dewis yr unigolyn. Dwi yn bersonol yn dweud fy mod i’n rhannol ddall, yn ddall neu â nam ar fy ngolwg oherwydd dwi wedi fy nghofrestru fel person dall ers cael fy ngeni ond mae gen i rywfaint o olwg defnyddiol. Weithiau rydym ni’n sôn am y nam mewn

ffordd lawer mwy anffurfiol: er enghraifft, byddwn i'n dweud yn aml 'Dwi ddim yn gallu gweld yn dda iawn' (nid yw hyn yn golygu nad oes arnaf i angen llawn cymaint o gymorth â rhywun sy'n fwy amlwg yn berson â nam ar ei olwg).

Wrth glywed rhywun mewn lleoliad yn sôn amdanaf i wrth rywun arall, byddwn i'n disgwyl iddo ddefnyddio'r term person â nam ar ei olwg.

Y peth allweddol am iaith? Peidiwch â mynd i banig – byddwch yn naturiol, ac os nad ydych yn siŵr, gofynnwch – er ei bod yn anodd, byddai'n well gennym fod rhywun yn gofyn inni na gwybod bod rhywun yn ansicr ac yn baglu dros ei eiriau.

**Myth 'Dallineb'**

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn credu nad yw'r term 'dall' neu 'ddallineb' yn berthnasol ond i bobl sydd heb unrhyw olwg o gwbl.

Mewn gwirionedd, mae hyn yn beth prin iawn - yn ystadegol, dim ond 4% o bobl â nam ar eu golwg yn y Deyrnas Unedig sydd heb unrhyw olwg o gwbl (RNIB). Felly, bydd rhywfaint o olwg gan y rhan fwyaf o'r bobl sy'n ystyried eu hunain yn ddall.

## Gallu Dweud

Ni fydd llawer o bobl â nam ar eu golwg yn defnyddio cymhorthion mynediad megis cŵn tywys, ffyn hir neu ffyn symbol drwy'r amser – os o gwbl – felly dylech gofio na allwch ddweud yn aml iawn a yw rhywun â nam ar ei olwg.

Cofiwch y gall llawer o'ch cwsmeriaid presennol fod â nam ar eu golwg ond nad ydynt yn ystyried eu hunain yn bobl o'r fath.Mae'n bosibl na fydd rhai pobl yn sylweddoli y gallant fanteisio ar rai darpariaethau mynediad megis rhaglenni print bras hyd nes iddynt gael eu cynnig.

Nid yw’r rhan fwyaf o bobl â nam ar eu golwg yn mynd i’r theatr oherwydd eu bod yn disgwyl cael eu hallgau, felly nid ydynt yn gwybod am lawer, neu unrhyw un, o’r darpariaethau mynediad presennol. Mae’n bwysig esbonio beth sy’n cael ei gynnig os yw gennych chi; peidiwch â rhagdybio bod pobl yn gwybod.

## 6. Rhyngweithio â chwsmeriaid a chyflogeion â nam ar eu golwg

Er nad ydym eisiau i chi fod yn bryderus ynghylch iaith, mae rhai arferion da mae'n bwysig bod yn ymwybodol ohonynt. Pethau syml yw'r rhain, ond yn aml mae pobl yn eu hanghofio.

**Disgrifio ble mae rhywbeth** (e.e. toiledau cwsmeriaid, rhywbeth yn yr ystafell) – Peidiwch â defnyddio iaith amwys fel 'draw fan'co' neu 'i fyny'r grisiau'. Defnyddiwch iaith sy'n disgrifio lleoliad rhywbeth yn glir ac yn benodol neu, yn well byth, dangoswch inni.

**Does dim diben pwyntio** - Yn hytrach na phwyntio at bethau, mae'n haws os gallwch fynd â ni i'r lle mae angen inni fynd.

**Tywys** - Wrth ein tywys i rywle, gofynnwch a hoffem gymryd eich braich neu a ydym ni'n iawn i'ch dilyn – peidiwch â chymryd ein braich ni, cynigiwch eich braich chithau.

Byddwch yn ymwybodol o risiau neu rwystrau ar y ffordd a soniwch amdanynt os oes angen –

wrth sôn am risiau, dywedwch a ydynt yn mynd i fyny neu i lawr.
go up or down.

**‘Ydi’n cymryd siwgr?’** Wrth ryngweithio gyda chwsmer â nam ar ei olwg sydd â rhywun gydag ef, siaradwch â ni yn uniongyrchol yn hytrach na rhyngweithio gyda’n cydymaith yn unig.

I gael mwy o wybodaeth am dywys gan bobl â golwg ganddynt, mae tudalen ddefnyddiol yma: https://www.rnib.org.uk/information-everyday-living-family-friends-and-carers/guiding-blind-or-partially-sighted-person

Mae hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o nam ar y golwg yn beth defnyddiol iawn i’w roi ar waith ar draws adrannau cwmnïau a lleoliadau. Trowch at yr adran Cysylltiadau Defnyddiol i gael gwybodaeth am hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o nam ar y golwg.

**Isod ceir crynodeb o'n gofynion mwyaf cyffredin o ran mynediad wrth ymweld â lleoliadau:**

- Cymorth wrth fynd i leoedd allweddol mewn lleoliadau – swyddfa docynnau, toiledau, bar/caffi, awditoriwm ac ati.

- Staff yn gwybod sut i ryngweithio gyda ni yn naturiol ac yn gymwynasgar; mae'n glir a yw staff wedi cael hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o nam ar y golwg ai peidio.

- Staff â gwybodaeth gyfredol am yr hyn sy'n cael ei gynnig (disgrifio clywedol, teithiau cyffwrdd ac ati).

- Gallu cadw seddi yn y blaen a'r canol, hyd yn oed pan nad yw seddi'n cael eu neilltuo fel arfer.

- Cymorth i ddod o hyd i'n sedd.

- Cysondeb, gallu bod yn ffyddiog y bydd yr un mynediad ar waith bob amser ac y byddwn yn cael yr un driniaeth bob tro yr ydym yn ymweld.

- Deunyddiau print hygyrch neu ddeunyddiau sain cyfatebol megis rhaglenni, bwydlenni, llyfrynnau'r tymor thaflenni.

- Os ydym yn defnyddio ci tywys, weithiau rydym yn hoffi mynd â'r ci i mewn gyda ni neu allu ei adael gydag aelod o'r staff.

“O’r blaen, ’doeddwn i ddim yn gwybod bod yna deithiau cyffwrdd neu ddisgrifio clywedol mewn theatr – ’doeddwn i byth yn cael gwybodaeth oddi wrth unrhyw theatrau bod hyn yn digwydd. Byddwn i’n mynd i’r sinema ac yn gwylio ffilmiau â disgrifio clywedol ond ’doeddwn i ddim yn sylweddoli bod disgrifio clywedol ar gael mewn theatrau.”

# 7 Yr hyn y gallwch chi ei wneud

Bydd yr adran ganlynol yn nodi sut i wneud cynyrchiadau a lleoliadau'n hygyrch i gwsmeriaid a chyflogeion â nam ar eu golwg. Byddwn yn edrych ar amrywiaeth o addasiadau y gellir eu gwneud, pethau i fod yn ymwybodol ohonynt, a'r offer mynediad sydd ar gael a sut i'w defnyddio.

## Sut i wneud eich cynhyrchiad yn hygyrch

Os ydych chi'n bwriadu gwneud eich gwaith yn hygyrch, yn ddelfrydol mae angen ichi ystyried eich cynulleidfa â nam ar eu golwg o ddechrau'r prosiect.

**Disgrifio clywedol** (AD)
Ceir mwy o wybodaeth yn adran 10

P'un a ydych yn bwriadu cyflogi disgrifiwr proffesiynol i ddarparu disgrifio clywedol 'traddodiadol' neu integreiddio disgrifio clywedol i'ch darn gyda chymorth ymgynghorydd, dylid trafod hyn yn gynnar.

- Ymchwiliwch i ddisgrifwyr ac ymgynghorwyr clywedol yn eich ardal chi a chysylltwch â nhw er mwyn cael gwybodaeth ar gyfer eich cais am gyllid (gweler Cysylltiadau Defnyddiol).

- Trafodwch eich opsiynau gyda'r ddau uchod.

- Cynlluniwch pa fath o ddisgrifio sy'n fwyaf addas i'ch gwaith chi.

- Trefnwch i'r cwmni cyfan weithio gyda'r ymgynghorydd/disgrifiwr fel bod pawb yn cyfrannu at y mynediad ac yn ymwybodol o'r gofynion o ran mynediad yn ystod y perfformiad.

Ceir mwy o wybodaeth am wahanol arddulliau disgrifio clywedol yn adran 10

**Ymgynghorwyr Disgrifio Clywedol**
Ceir mwy o wybodaeth yn adran 11

I helpu â'ch gwaith cynllunio ar ddechrau eich prosiect, mae'n arfer gorau llunio cyllideb ar

gyfer ymgynghorydd (ceir amcangyfrifon o ffioedd yn adran 11 hefyd). Mae ymgynghorwyr yn bobl â nam ar eu golwg sydd â phrofiad ym myd y theatr ac sy’n gweithio ochr yn ochr â disgrifiwr neu yn lle disgrifiwr. Mae’n bwysig defnyddio ymgynghorydd oherwydd mae yn y sefyllfa orau i roi arweiniad ichi ynghylch yr hyn y bydd ar eich cynulleidfa â nam ar eu golwg ei angen a’i eisiau. Gall ymgynghorwyr profiadol eich helpu i ddylunio’r disgrifio clywedol wrth ei integreiddio i’ch gwaith.

**Teithiau Cyffwrdd**
Ceir mwy o wybodaeth yn adran 12

Mae taith cyffwrdd yn gyfle i aelodau o’r gynulleidfa â nam ar eu golwg ddod i gwrdd â rhai o’r cast neu’r cast cyfan cyn y sioe ac i gael profiad o’r set, y gwisgoedd a’r propiau. Maent yn gwneud gwahaniaeth enfawr i gynulleidfa â nam ar eu golwg ac mae’n hawdd eu cynnal ac yn costio dim. Maent yn bethau anffurfiol: cyfle i gwrdd â’r cast a chyflwyniad i’r gofod, y propiau a’r gwisgoedd. Mae teithiau cyffwrdd yn cynnig cyfle i gael crap ar bwy sy’n chwarae pwy a

chael ymdeimlad o’r gofod – maent yn hanfodol er mwyn trochi person â nam ar ei olwg yn y byd rydych chi’n ei greu.

## Blychau Model

Fersiynau bychan bach, manwl a chyffyrddadwy o’r set yw’r rhain, a leolir fel arfer yn rhywle y tu allan i’r awditoriwm neu yng nghyntedd y lleoliad.

- Gall cynulleidfaoedd â nam ar eu golwg gyffwrdd a chael profiad o’r model yn agos er mwyn cael argraff o’r set a’r dyluniad.

- Weithiau caiff y rhain eu cyflwyno yn lle teithiau cyffwrdd, ond mae’n ddoeth cynnal teithiau cyffwrdd lle bynnag y bo modd.

## Marchnata

Er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd â nam ar eu golwg mae’n hanfodol ichi feddwl am fformatau marchnata hygyrch. Os ydych chi’n cynnig darpariaeth mynediad mae angen ichi

ei hysbysebu mor eang ag sy’n bosibl. Gall hyn gynnwys

- Taflenni sain
- Rhaglenni sain
- Taflenni a rhaglenni print bras neu Braille
- Lledaenu’r gair trwy bapurau newyddion a chylchlythyrau llafar a gorsafoedd radio sy’n darparu ar gyfer cynulleidfaoedd â nam ar eu golwg (megis RNIB Connect), neu raglenni mwy cyffredinol am y celfyddydau
- Defnyddio cyfryngau cymdeithasol
- Defnyddio nodweddion mynediad ar gyfryngau cymdeithasol megis disgrifiad planedig o ddelweddau
- Ymgysylltu â sefydliadau a grwpiau lleol pobl â nam ar eu golwg i ledaenu’r gair

- Gwneud gwaith estyn allan, mynd allan i gwrdd â darpar aelodau o gynulleidfa â nam ar eu golwg

- Plannu disgrifiad ar Twitter: https://help.twitter.com/en/using-twitter/picture-descriptions

Mae'n bwysig ystyried y ffactorau hyn wrth wneud cais am gyllid. Ymchwiliwch yn ofalus i gost darparu fformatau hygyrch, sut y byddwch yn marchnata'n benodol i gynulleidfa â nam ar eu golwg a chofiwch gyllidebu a chynllunio yn unol â hynny.

Mae angen deall rôl y disgrifiwr neu ymgynghorydd disgrifio clywedol: ni fydd yn dod â chynulleidfa gydag ef, hyd yn oed os yw'n adnabyddus yn eich ardal chi.

Ceir gwybodaeth fanylach am farchnata i gynulleidfaoedd â nam ar eu golwg yn adran 8 'Cyrraedd eich cynulleidfa'.

## Estyn Allan

- Mae’n hanfodol cymryd amser i ymgysylltu â grwpiau lleol yn y man lle mae’ch canolfan neu lle rydych chi’n cyflwyno gwaith.

- Mae’n cymryd amser i feithrin perthynas – mae angen ichi gynnig mynediad mewn modd cyson a sicrhau bod pobl yn ymwybodol ohono.

- Peidiwch â digalonni – mae’n bosibl mai bach fydd y niferoedd ar y dechrau oherwydd mai anaml iawn mae mynediad i bobl â nam ar eu golwg ar gael – byddwn yn rhagdybio nad yw yno oni bai eich bod chi’n gweithio i roi gwybod inni fel arall ac yn parhau i’w gynnig dros gyfnod hir.

- Mae ymgysylltu mewn modd cyson â grwpiau â nam ar eu golwg y tu allan i leoliad neu gynhyrchiad yn cynyddu’r nifer sy’n ei fynychu yn aruthrol.

Cewch fanylion sefydliadau a grwpiau perthnasol yn yr adran Cysylltiadau Defnyddiol

## Cyllidebu

- Ddeall mynediad **cyn** ichi wneud cais am gyllid.
- Ymchwilio i gostau realistig mynediad a rheoli'ch cyllideb yn unol â hynny.
- Meddwl am gostau deunyddiau marchnata eraill megis taflenni print bras/sain.
- Cyllidebu'r swm priodol ar gyfer ffioedd ymgynghorydd a disgrifiwr – gofynnwch am ddyfynbris cyn ichi wneud cais am gyllid.
- Ystyried yn ofalus y math o fynediad rydych eisiau ei ddarparu a pham (meddyliwch am eich cynulleidfa) ac ymchwilio'n drwyadl i gost a realiti ei roi ar waith cyn gwneud cais.
- Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn cynnig cyllid ychwanegol ar gyfer costau mynediad cyflogeion. Trafodwch hyn â'ch swyddog CCC cyn gwneud cais.

- Gallwch gyflawni'r uchod i gyd trwy gysylltu â disgrifwyr, ymgynghorwyr a CCC i ofyn am gyngor cyn gwneud cais.

**Gwefan** (this also applies to venues)

Sicrhewch fod eich gwefan yn hygyrch trwy:

- Ddefnyddio ymgynghorydd nam ar y golwg

- Dewis dylunydd gwefannau sydd â phro iad o ddylunio hygyrch neu nodweddion hygyrchedd

- Gall archwilwyr mynediad roi cyngor ar gynnwys eich gwefan hefyd

- Cadw at ganllawiau Web Accessibility Initiative (WAI), y gellir eu gweld yma: www.w3.org/WAI/

- Ychwanegu botymau toglo maint ffont a chyferbyniad lliw i'ch gwefan.

Cofiwch, nid yw mynediad a steil yn cau ei gilydd allan.

“Mae lleoliadau’n gwella ond es i un swyddfa docynnau ac roedd yr aelod o’r staff yn gwneud ei orau glas i esbonio a helpu cymaint ag y gallai ond roedd yn amlwg nad oedd dim hyfforddiant na dim ymwybyddiaeth yno – mae hynny’n fwy cyffredin na pheidio. Mae angen i bethau fel hyn newid oherwydd os nad yw’r person cyswllt cyntaf yn ei chael yn iawn, fydd llawer o bobl ddim yn dod yn ôl – yn yr un ffordd yn union ag unrhyw gwsmer arall.”

## Sut i wneud eich lleoliad yn hygyrch

### Prynu Tocynnau

Er mwyn gwneud prynu tocynnau'n decach ac yn symlach, dylech ystyried:

- Cofrestru ar gyfer cynllun deiliaid cardiau sy'n bodoli eisoes megis Hynt neu gynnig eich cynllun mewnol eich hun ochr yn ochr ag ef. Wrth brynu ar lein, trwy hyn gallai'r cwsmer roi rhif unigryw ei gerdyn i mewn i gael tocyn/nau consesiynol//tocyn/nau am ddim i gydymaith.

- Os ydych chi'n defnyddio system prynu tocynnau (megis Ticketsource), gall osod y nodwedd hon os caiff gyfarwyddyd i wneud.

- Gall fod yn anhygyrch i rai pobl os yw'n ofynnol iddynt brynu tocynnau dros y ffôn neu wyneb yn wyneb, felly dylech ystyried sicrhau bod modd i bobl â nam ar eu golwg brynu tocynnau ar lein.

## Gwybodaeth am drafnidiaeth ac am y lleoliad

Os oes modd, gall darparu trafnidiaeth am ddim neu rad o ddrws i ddrws wneud byd o wahaniaeth wrth ganiatáu i gwsmeriaid â nam ar eu golwg ddod i'ch lleoliad yn annibynnol.

Os nad oes modd gwneud hyn, mae o gymorth mawr darparu gwybodaeth glir a manwl am drafnidiaeth gyhoeddus neu lwybrau i gerdded i'r lleoliad/digwyddiad.

Gallai hyn gynnwys:

- Ffotograffau/disgrifiadau o'r tu allan i'r adeilad a'i fynedfa a'r cyffiniau.

- Ffotograffau/disgrifiadau o rannau o'r tu mewn fel y cyntedd, swyddfa docynnau, bar, toiledau ac awditoriwm (a sut maent yn cysylltu â'i gilydd).

- Mapiau rhyngweithiol neu fideos ar lein sy'n caniatáu i gwsmeriaid â nam ar eu golwg ymgyfarwyddo â'r gofod cyn cyrraedd.

- Trefnu ymweliadau i fynd ag unigolion a grwpiau â nam ar eu golwg o gwmpas y lleoliad yn ystod adegau llai prysur.

- Gall disgrifiadau o'r adeilad a'r gofod gael eu hychwanegu i wefannau neu ddeunydd marchnata printiedig hygyrch (a'u darparu hefyd ar fformat sain).

- Mae UCAN wedi cynllunio ap, UCAN Go, sef arweiniad rhyngweithiol o gwmpas lleoliadau. Gallwch gael gwybod mwy am hyn yma: https://calvium.com/products/ucan-go/

**Cynlluniau Cardiau/Aelodaeth**

Menter gan Gyngor Celfyddydau Cymru yw Hynt sy'n gweithredu ar draws lleoliadau Cymru i roi mynediad cyson i gwsmeriaid anabl. Y prif fudd i ddeiliaid cardiau Hynt yw'r wybodaeth eu bod yn gymwys yn awtomatig i gael tocyn/nau am ddim i gydymaith yn unrhyw un o leoliadau Hynt.

Cewch wybod mwy yma: www.hynt.co.uk

## Tocyn/nau am ddim i Gymdeithion

Mae cynnig y gwasanaeth hwn yn gyfystyr â gwneud addasiad rhesymol fel y mynnir gan y gyfraith *(Deddf Cydraddoldeb 2010)* a gall wneud y gwahaniaeth rhwng gallu dod i'r theatr neu beidio i aelod o'r gynulleidfa â nam ar ei olwg. Drwy gynnig tocyn i gydymaith rydych chi'n llawer mwy tebyg o feithrin a chadw cynulleidfa ffyddlon â nam ar eu golwg.

## Consesiwn Person Anabl

Nid yw pobl anabl yn cael yr un cyfleoedd i gael cyflogaeth ac felly maent yn fwy tebyg o fod ag incwm isel neu mewn gwaith rhan amser ("Dim ond 27% o bobl ddall/rhannol ddall sydd mewn cyflogaeth" RNIB), felly mae consesiwn ar brisiau tocynnau yn gwneud mynd i'r theatr yn llawer mwy posibl.

## Hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o nam ar y golwg

Dyma'r ffordd orau i sicrhau bod yr holl staff yn eich cwmni neu'ch lleoliad yn gwbl ymwybodol o'r holl agweddau ar fynediad i gynulleidfaoedd â nam ar eu golwg.

Yn aml mae'n cynnwys rhai neu bob un o'r pethau canlynol:

- Asesu'r profiad a gwybodaeth sydd ganddynt eisoes
- Arferion gorau wrth gyfarch a rhyngweithio â phobl â nam ar eu golwg
- Hyfforddiant ar dywys gan bobl â golwg ganddynt
- Iaith
- Y model cymdeithasol o anabledd

- Cyflwyniad i ‘sbectol efelychu’ – sbectol sy’n efelychu gwahanol fathau o nam ar y golwg (megis golwg twnnel neu gataractau) fel y gallwch gael profiad o sut allai fod i lywio trwy ofod neu gyflawni tasg heb ddibynnu ar olwg llawn.

Er mwyn hirhoedledd, gallai staff rheoli sydd wedi cael yr hyfforddiant hwn ei roi ar waith wedyn gydag unrhyw aelodau newydd o’r staff pan fônt yn dechrau, ochr yn ochr â hyfforddiant ar eu dyletswyddau cyffredinol.

Ceir manylion yr hyfforddiant a hyfforddwyr sydd ar gael yn yr adran Cysylltiadau Defnyddiol

**System Bydis**

Mae’r gwasanaeth hwn wedi cael ei roi ar waith i gynorthwyo aelodau o’r gynulleidfa â nam ar eu golwg i fynd o’r drws i’w seddi ac yn ôl. Mae bydis yn paru ag un neu ddau o aelodau o’r gynulleidfa sydd â nam ar eu golwg ac yn:

- cyfarfod â nhw o’u trafnidiaeth (os ydynt yn defnyddio trafnidiaeth) wrth iddynt gyrraedd

- eu cyfarwyddo o gwmpas y fan

- helpu i gasglu tocynnau, cael diod wrth y bar, dod o hyd i’r toiledau, dod o hyd i’r sedd neilltuedig yn y theatr a chynorthwyo yn ystod yr egwyl ac ar ôl y sioe
- weithiau bydd gofyn iddynt eistedd gyda’r cwsmer ac weithiau i gynorthwyo neu dywys y cwsmer cyn ac ar ôl y perfformiad

- os nad ydynt yn eistedd yn yr awditoriwm yn ystod y sioe, mae’n bosibl y gofynnir iddynt edrych ar ôl ci tywys y person â nam ar ei olwg, lle bo’n berthnasol (fel arall yn aml mae staff y swyddfa docynnau’n gwarchod y ci tywys).

## Mynediad Ffisegol – Archwiliadau Hygyrchedd

Er mwyn gwneud eich lleoliad yn fwy hygyrch gallwch gyflogi Archwilydd Mynediad i’ch

cynghori ar unrhyw addasiadau angenrheidiol. Gall rhai o'r rhain fod yn strwythurol ac yn fwy costus, a gall rhai gael eu cyflawni mewn modd syml a chost- effeithiol.

## Deunyddiau Marchnata Lleoliad – Fformatau Hygyrch

- gynnig gwybodaeth brintiedig megis llyfrynnau, amserlenni a rhaglenni tymor mewn fformatau eraill: sain, Braille a phrint bras ar ffurf brintiedig ac ar lein.

- sicrhau bod unrhyw berfformiadau hygyrch yn cael eu hysbysebu'n glir mewn fformatau hygyrch.

- ystyried creu tudalen mynediad ar eich gwefan os nad oes un gennych eisoes a'i chadw'n gyfredol os oes un gennych

## Cyfathrebu Rhwng Adrannau

Er mwyn i gwsmeriaid â nam ar eu golwg gael y profiad gorau wrth ymweld â'ch lleoliad ac

felly y byddant eisiau dod yn ôl, mae'n bwysig bod yr holl staff yn cael gwybod am bopeth sy'n cael ei gynnig. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer staff y swyddfa docynnau a blaen y tŷ. Gallwch hwyluso hyn trwy sicrhau nad oes dim bylchau yn eu gwybodaeth na methiannau wrth gyfathrebu rhwng adrannau.

Er mwyn hwyluso ymwybyddiaeth rhwng adrannau:

- Dylai sgyrsiau am fynediad gael eu cynnal yn ystod cyfarfodydd rhyngadrannol neu adrannol wythnosol.

- Dylai rheolwyr adrannau gael eu briffio i drosglwyddo gwybodaeth briodol i'w staff.

- Os yw mynediad wedi'i integreiddio neu ei ychwanegu i sioe sy'n dod i mewn i'r lleoliad, mae angen i staff y swyddfa docynnau a blaen y tŷ gael gwybod beth yw'r ddarpariaeth a sut mae'r gynulleidfa yn ei defnyddio (e.e. os oes taith cyffwrdd, ble mae'r gynulleidfa'n mynd i gael mynediad

iddi, faint o’r gloch mae a phwy sy’n ei rhedeg? Os darperir disgrifio clywedol, a yw’n rhan o’r perfformiad neu a fydd arnynt angen clustffonau?).

## Hysbysebu’r hyn yr ydych yn ei gynnig

Wrth fuddsoddi amser ac arian i ddarparu mynediad, mae’n hanfodol ichi ei hysbysebu’n helaeth mewn ffyrdd hygyrch. Os ydych chi’n buddsoddi mewn cynnig gwasanaeth, dylech yn bendant fuddsoddi yn ei hysbysebu.

“Os ydych chi’n mynd i rywle lle na wneir ichi deimlo’n gyfforddus, yn enwedig os ydych chi’n talu arian amdano ac rydych eisiau iddo fod yn bleserus...wel, dwi ddim fel arfer yn mynd yn ôl i leoedd nad ydyn nhw’n gwneud imi deimlo’n gyfforddus.”

# 8  Cyrraedd Eich Cynulleidfa

Yn wahanol i'r gymuned Fyddar, nid oes gan bobl â nam ar eu golwg iaith neu ddiwylliant a rennir felly yn draddodiadol mae'n anos ein cyrraedd ac ymgysylltu â ni fel grŵp ac mae risg arbennig y cawn ein hallgau.

Gall lleoliadau a chwmnïau fod â pherthnasoedd da iawn gyda chwsmeriaid â nam ar eu golwg:

- Os ydynt wedi gweithio i feithrin ymddiriedaeth ac y caiff y cwsmer ei sicrhau y darperir iddo yn briodol o'r dechrau i'r diwedd pan fo'n mynychu perfformiad

- Os yw'r iaith briodol yn cael ei defnyddio mewn modd cyson gan yr holl staff

- Os yw staff ar draws yr holl adrannau wedi'u hyfforddi ac yn ymwybodol o'r hyn sy'n cael ei gynnig a sut i ddarparu ar gyfer pobl â nam ar eu golwg (gweler adrannau 4-6)

- Lle bo modd, os ydych yn dod i adnabod eich cynulleidfa’n dda fel y bydd y staff yn gwybod pwy ydym ni ac yn cofio ein gofynion o ran mynediad

- Os yw’r cynhyrchiad yr un mor hygyrch â’r lleoliad

- Os yw cyfathrebu ac ymweld â grwpiau â nam ar eu golwg yn eich ardal neu lle rydych chi’n perfformio yn digwydd yn gyson – cymryd yr amser i feithrin a chynnal cysylltiadau

- Os yw’n hawdd prynu tocynnau ac os oes modd gwneud hynny ar lein

- Os yw perfformiadau hygyrch yn cael eu creu a’u rhaglennu’n rheolaidd

- Lle bo modd, os darperir trafnidiaeth am ddim a system bydis neu gynllun tebyg i hwyluso mynychu perfformiadau.

Mae lleoedd defnyddiol i ledaenu’r gair a hyrwyddo gwaith hygyrch yn cynnwys:

- Radio RNIB Connect
  (tudalen Facebook a gorsaf radio)
- The Arts Show (BBC Radio)
- yn trydar RNIB
- Sefydliad y Deillion Caerdydd
- Cyngor Cymru i’r Deillion
- Celfyddydau Anabledd Cymru
  (sydd hefyd â chylchlythyr)
- Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru
  (sydd â chylchlythyr llafar)
- Elbow Room Theatre
- Celfyddydau Anabledd Ar- lein,
  Anabledd Cymru

Gweler y rhestr o enwau Twitter defnyddiol yn yr adran Cysylltiadau Defnyddiol

Bydd yr uchod yn helpu i sefydlu enw da am ymddiriedaeth gyda chynulleidfa â nam ar eu golwg ffyddlon, ehangach a fydd yn llawer mwy tueddol o ymweld â'r lleoliad hwnnw eto neu wneud ymdrech i weld mwy o waith y cwmni hwnnw yn y dyfodol.

Cofiwch, mae'n cymryd amser ac ymdrech barhaus. Rhaid i'r mynediad fod yno yn gyson dros gyfnod hir, ynghyd â marchnata hygyrch, ac yn raddol bydd cynulleidfaoedd yn dysgu nad ydynt yn cael eu hallgau mwyach o'ch lleoliad neu'ch gwaith.

“Doedd hi byth yn teimlo fel pe bai’r theatr yn hygyrch i mi fynd ar fy mhen fy hun a byddwn i’n talu cymaint o arian am rywbeth nad oeddwn i’n mynd i gael ei botensial llawn. Pan feddyliwch am y theatr rydych chi’n meddwl am sioeau cerdd drud a slic sy’n costio llawer ac nad ydyn nhw’n hygyrch. Nawr dwi’n gwybod bod pob math o bethau’n digwydd drwy’r amser - cwmnïau cynhyrchu bach, llawer mwy o bethau hygyrch nad oeddwn i’n gwybod amdanyn nhw. Ond mae llawer mwy o hyd yr hoffwn i gael mynediad iddo.”

## 9. Mynediad: Cyfrifoldeb Pwy?

Dylai mynediad fod yn un o'r prif ystyriaethau i'r cwmni (neu'r artist) a'r lleoliad, ac felly dylid trafod yn gynnar pwy sy'n ysgwyddo pa gyfrifoldeb.

- Er enghraifft, wrth raglennu sioe, mae lleoliadau'n disgwyl i'r cwmni ddarparu copi a lluniau yn unol â therfyn amser – dylai pobl ar y ddwy ochr fod yn ymwybodol o fformatau marchnata eraill a thrafod eu hopsiynau ar y cam hwn.

- Mae llawer o leoliadau wedi buddsoddi mewn bod yn berchen ar dechnoleg megis clustffonau disgrifio clywedol. Dylid trafod nid yn unig y math o offer sydd ar gael yn y lleoliad, ond beth yw cyflwr yr offer a lle maent yn fwyaf effeithiol - mae batris clustffonau'n mynd yn isel os na chânt eu gwirio'n aml a gallant golli'r signal a bod yn aneffeithiol mewn rhai rhannau o'r awditoriwm neu ofod theatr.

- Os ydych wedi dewis integreiddio disgrifio i'ch gwaith ac nad oes angen clustffonau,

mae'n hanfodol cyfleu hyn i'r lleoliad ac yn bwysicach byth, rhaid i'r lleoliad drosglwyddo'r wybodaeth hon ar draws adrannau er mwyn i'r staff fod yn ymwybodol ac i'r rhai sy'n ymdrin â chwsmeriaid allu dweud wrth aelodau o'r gynulleidfa beth sydd ar gael iddynt.

  - Os yw sioe'n cael ei marchnata fel un â disgrifio clywedol bydd pobl yn disgwyl clustffonau – hyd nes y bydd integreiddio'n dod yn fwy cyffredin, bydd yn rhaid dweud yn glir pa fath o fynediad sydd, er mwyn osgoi tramgwyddo'ch cynulleidfa.

- Cyfrifoldeb y cwmni a'r lleoliad fel ei gilydd yw mynd allan ac ymgysylltu â'r gynulleidfa â nam ar eu golwg. Mae'n cymryd amser i feithrin cynulleidfa ffyddlon ac mae'n rhaid ichi ddisgwyl i'r cynnydd fod yn araf, ond os byddwch yn ymrwymo i ddarparu mynediad a'i hysbysebu mewn modd hygyrch ac yn estyn allan i grwpiau ac unigolion â nam ar eu golwg, byddwch yn gweld y budd yn y pen draw.

- Mae’n bwysig ystyried cost eich holl opsiynau a darpariaethau o ran mynediad i bobl â nam ar eu golwg – o waith estyn allan ac ymgysylltu i farchnata hygyrch i ddisgrifio clywedol (ymgynghorwyr a disgrifwyr) – a chynnal trafodaethau rhwng y lleoliad a’r cwmni ynghylch pwy all ymdrin â beth. Dylech gynorthwyo’ch gilydd i wneud hyn yn hytrach na’i ystyried yn broblem neu’n rhwystr.

# 10 Disgrifio Clywedol

## Disgrifio Clywedol ‘Traddodiadol’

Mae disgrifio clywedol yn sylwebaeth ychwanegol sy’n darparu disgrifiad o’r gweithredu a nodweddion ffisegol ar y llwyfan fel nad yw aelodau o’r gynulleidfa sy’n ddall ac yn rhannol ddall yn colli dim. Fel arfer mae disgrifio clywedol yn disgrifio iaith corff, mynegiannau wyneb, symudiadau ac effeithiau goleuo.

Mewn mathau ‘traddodiadol’ o ddisgrifio clywedol, bydd disgrifwyr yn darparu’r disgrifiad yn fyw o rywle yn yr awditoriwm ac yn ei amseru fel na fydd yn gorgyffwrdd â geiriau’r actorion. Bydd y derbynnydd yn gwrando trwy glustffonau (a ddarperir gan y theatr fel arfer) sy’n caniatáu i bob unigolyn reoli lefel y sain.

Fel arfer caiff y math hwn o ddisgrifio clywedol ei drefnu gan y cwmni (oni fo gan y lleoliad drefniant gyda disgrifiwr penodol) a’i ddarparu gan ddisgrifiwr clywedol cymwysedig a fydd yn arsylwi ar rywfaint o’r ymarferion (ac yn eu ffilmio neu’n eu recordio), yn llunio sgript

disgrifio clywedol ac yn ei darparu ar gyfer nifer benodol o berfformiadau.

Mae disgrifio clywedol traddodiadol yn cynnig i ddefnyddiwr y gwasanaeth ddisgrifiad syml o'r hyn sy'n digwydd ac nid yw'n rhoi llawer o gyfrifoldeb ar y cwmni neu'r cast i addasu'r perfformiad er mwyn darparu ar ei gyfer. Mae'n apelio at rai pobl â nam ar eu golwg oherwydd hyd yma dyma'r confensiwn ac maen nhw'n gwybod beth i'w ddisgwyl, ond mae'n bosibl y bydd yn well gan lawer o bobl â nam ar eu golwg ddull mwy creadigol nad yw'n golygu bod angen iddynt wisgo clustffonau.

Nifer gymharol fach o ddisgrifwyr clywedol proffesiynol sydd yng Nghymru ac mae'n bosibl y bydd cynulleidfaoedd yn dod yn gyfarwydd â'r disgrifiwr yn eu hardal oherwydd, hyd yma, ef yn aml fydd y prif berson cyswllt i'r gynulleidfa â nam ar eu golwg.

Gweler yr adran Cysylltiadau Defnyddiol i gael manylion disgrifwyr clywedol cymwysedig yng Nghymru.

## Disgrifio Clywedol Integredig

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae nifer o gwmnïau ac artistiaid unigol wedi bod yn gweithio tuag at ddefnyddio disgrifio clywedol mewn modd mwy creadigol a'i integreiddio i berfformiad fel nad oes angen defnyddio clustffonau. Mae hyn yn osgoi rhai o'r problemau sy'n rhan annatod o ddisgrifio clywedol 'traddodiadol':

- Nid yw llawer o bobl yn hoffi defnyddio clustffonau – ac felly maen nhw'n dewis peidio â'u defnyddio oherwydd eu bod yn gwneud iddynt deimlo'n amlwg ac yn eu gwahanu oddi wrth y bobl maent gyda nhw.

- Gall sŵn sy'n gollwng o glustffonau gythruddo aelodau eraill o'r gynulleidfa ac felly gwneud i bobl â nam ar eu golwg deimlo'n hunan-ymwybodol iawn.

- Oherwydd ei fod yn gudd, mae'n bosibl na fydd llawer o bobl sy'n ymweld â'r theatr yn sylweddoli bod disgrifio clywedol ar gael oni fo staff y lleoliad yn tynnu sylw ato.

- Yn aml mae lleoliadau a chwmnïau'n methu â hysbysebu, mewn modd digonol a hygyrch, y ffaith y bydd disgrifio clywedol ar rai sioeau.

- Gall y math hwn o ddisgrifio clywedol fod yn gostus ac felly mae'n cyfyngu ar nifer y sioeau y gellir eu disgrifio.

- Mae dull integredig, creadigol yn arwain at brofiad mwy cyfartal.

Fel arfer mae disgrifio clywedol integredig yn golygu bod angen ystyried mynediad o ddechrau'r broses greadigol: mae'r awdur, y cyfarwyddwr a'r cast yn cydweithio gydag ymgynghorydd (ac yn aml disgrifiwr hefyd) i ganfod pa ddisgrifio clywedol mae ei angen a'r ffordd orau i'w integreiddio i'r sgript er mwyn iddo fod yn rhan annatod o arddull y sioe. Felly mae'n dod yn ychwanegiad cynnil nad yw'r gynulleidfa â golwg ganddynt yn sylwi arno ond sy'n darparu mynediad i'r rheiny mae arnynt ei angen.

Lle byddai disgrifio clywedol traddodiadol efallai'n disgrifio rhywbeth yn eglur ('Mae Julie

yn edrych mewn modd ansicr ar Seren'), gyda disgrifio clywedol integredig mae'n bosibl y byddai Seren yn dweud: "Paid ag edrych arna i fel yna. Dwi'n gwybod beth dwi'n ei wneud". Mae'n cyflawni'r un peth ond yn cael ei wneud mewn ffordd naturiol.

Enghreifftiau o wahanol arddulliau disgrifio clywedol integredig

**Wendy Hoose - Birds of Paradise**
Mae'r disgrifio clywedol wedi'i recordio ymlaen llaw ond yn cael ei chwarae trwy uchelseinyddion i'r gynulleidfa gyfan ei glywed. Caiff ei gyflwyno gan gymeriad sardonig sy'n rhoi sylwadau yn oddrychol ar ddigwyddiadau.

**Romeo and Juliet - Taking Flight Theatre**
Roedd hwn yn defnyddio dyfais cyhoeddiadau ysgol i ddarparu disgrifio clywedol byw a chan fod y sioe hefyd yn integreiddio Iaith Arwyddion Prydain, cafodd hyn i gyd ei esbonio trwy gân ar ddechrau'r perfformiad (fel y gwyddai cynulleidfaoedd B/byddar nad oeddent yn colli unrhyw ddeialog pan welsant gyhoeddiadau ysgol yn digwydd).

**Reasons to be Cheerful - Graeae**
Mae disgrifiwr proffesiynol/actor sy’n chwarae cymeriad yn y sioe ar y llwyfan trwy’r amser yn darparu’r disgrifio clywedol i ffôn tafarn i glustffonau sy’n cael eu gwisgo gan aelodau o’r gynulleidfa â nam ar eu golwg.

**Double Vision - Gagglebabble**
Caiff disgrifio clywedol ei integreiddio mewn modd clyfar i’r deialog gyda defnydd sensitif o gerddoriaeth, effeithiau sain a dyluniad sain sy’n gwella’r mynediad i gynulleidfaoedd â nam ar eu golwg. Roedd disgrifio clywedol yn rhan o’r dyluniad o’r cam ymchwil a datblygu ymlaen.

**The Importance of Being Described... Earnestly? Chloë Clarke/Elbow Room Theatre/Galeri Caernarfon**
Darn yn canolbwyntio ar bobl â nam ar eu golwg gydag arddull disgrifio clywedol unigryw a’r digwydd wedi’i adeiladu o’i gwmpas. Ei nod yw rhoi dewis o ddehongliad trwy ddarparu, drwy’r amser, ddisgrifiadau sy’n gwrthdaro â’i gilydd oddi wrth bob cymeriad, wedi’u hintegreiddio’n naturiol i’r deialog.

“Ran amlaf pan fydda i’n prynu tocynnau mewn lleoliadau dydi’r staff yn y swyddfa docynnau byth yn gwybod a fydd dangosiad â disgrifio clywedol felly mae’n rhaid iddyn nhw ffonio rhywun i gael gwybod, ac ar y diwrnod dydi staff blaen y tŷ ddim yn gwybod a oes disgrifio clywedol na lle i gael y clustffonau. Mae rhai ohonyn nhw’n dweud ‘Mae isdeitlau, ai dyna rydych chi’n ei feddwl?’ Mae disgrifio clywedol integredig yn golygu nad oes rhaid ichi boeni am ddim o hynny, ond mae’n rhaid iddo gael ei wneud yn dda.”

## 11 Ymgynghorwyr Disgrifio Clywedol

Mae cwmnïau’n dod yn fwyfwy ymwybodol bod angen cyflogi ymgynghorwyr er mwyn darparu’n fwyaf effeithiol ar gyfer cynulleidfaoedd â nam ar eu golwg. Bydd ymgynghorwyr naill ai’n gweithio ochr yn ochr â disgrifiwr i lywio ei sgript disgrifio neu’n cydweithredu â’r tîm creadigol i integreiddio disgrifio clywedol (a gall hyn gael budd yn aml o gynnwys disgrifiwr hefyd).

Y peth gorau yw trafod eich prosiect gydag ymgynghorydd cyn ichi wneud cais am gyllid er mwyn canfod ei ffi a chyllidebu yn unol â hynny ond hefyd fel y gallwch drafod amserlen eich prosiect a lle y bydd yn fwyaf defnyddiol dod ag ef i mewn – fel arfer ar wahanol adegau yn ystod y datblygiad a/neu ymarferion o gam eithaf cynnar.

Bydd ymgynghorydd:

- Yn trafod arddull eich darn a sut i ddylunio’r disgrifio clywedol fel ei fod yn gydnaws ag ef.

- Yn eich cynghori ar ble mae’r angen mwyaf am ddisgrifio ac, yn bwysig iawn, ble nad oes ei angen.

- Yn gweithio gyda’r cwmni cyfan i ymchwilio i atebion a chreu disgrifio sy’n rhan annatod a naturiol o’r sioe.

- Yn gallu cydweithredu â disgrifiwr i ddylunio’r disgrifio, boed integredig neu draddodiadol.

Mae’r ymgynghorydd yno i weithio gyda chi a/neu ddisgrifiwr i ddylunio’r disgrifio clywedol neu gyfrannu at y broses gyffredinol, ond **nid** yw’n gyfrifol am ysgrifennu’r disgrifio ei hun.

## Ffioedd

Mae ffioedd disgrifwyr ac ymgynghorwyr disgrifio clywedol yn amrywio. Bydd hyn yn dibynnu ar gyfradd safonol unigolyn a hefyd nifer y diwrnodau/oriau y cytunir arnynt. Mae angen llawer o waith paratoi ar gyfer disgrifio clywedol.

Fel arweiniad, gall y gyfradd safonol fesul diwrnod i ymgynghorydd fod yn £250, a gall

un perfformiad ac amser paratoi ar gyfer disgrifiwr fod yn £500. Mae’n bosibl y gellir trafod y cyfraddau hyn gan ddibynnu ar amserlen prosiect (er enghraifft, efallai y byddai ymgynghorydd yn trafod cyfradd fesul wythnos yn hytrach na chyfradd fesul diwrnod, a all fod yn fwy cost effeithiol), ond bydd hyn yn dibynnu i raddau helaeth iawn ar y disgrifiwr neu ymgynghorydd unigol.

## 12 Teithiau Cyffwrdd

Caiff y rhain eu darparu gan y cwmni (yn aml dan arweiniad disgrifiwr clywedol, os oes un yn cymryd rhan) cyn y sioe. Mae'n gyfle i aelodau o'r gynulleidfa â nam ar eu golwg gwrdd â'r cast a chael profiad o'r set, y gwisgoedd a'r propiau cyn y sioe.

Mae taith cyffwrdd yn gwneud gwahaniaeth enfawr – os oes gennych ymdeimlad ffisegol o'r gofod, y set a'r bobl y tu mewn iddo, gallwch ymgysylltu llawer mwy â'r perfformiad.

Mae teithiau cyffwrdd yn gyfle i gwrdd yn anffurfiol lle mae aelodau o'r gynulleidfa â nam ar eu golwg yn sgwrsio â'r cast (ac weithiau â'r criw).

Mae hefyd yn rhoi cyfle i chi neu'r disgrifiwr esbonio ac egluro ychydig o nodweddion y sioe y gall fod yn anodd eu cynnwys yn y sgript disgrifio clywedol neu'r sgript gyffredinol os yw'r disgrifio clywedol yn integredig.

## Awgrymiadau ar gyfer Teithiau Cyffwrdd

- Gan ddibynnu ar faint eich cast, efallai y byddwch yn penderfynu cyflwyno ychydig o actorion yn unig – yn ddelfrydol y prif actorion. Dylent fod yn eu gwisgoedd a dylent ddod ag unrhyw wisgoedd ychwanegol (a phropiau perthnasol) os ydynt yn chwarae mwy nag un rhan.

- Os yw'r cast yn chwarae mwy nag un rhan, mae'n ddefnyddiol i'r actorion ddangos sut maent yn gwahaniaethu rhwng cymeriadau yn eu lleisiau a'u priodoleddau corfforol.

- Trefnwch i'r cwmni sy'n bresennol yn ystod y daith cyffwrdd ei thrafod â'r disgrifiwr (neu'r sawl sy'n rhedeg y daith) ymlaen llaw er mwyn i bawb deimlo'n gyfforddus.

- Gweithiwch gyda'r sawl sy'n rhedeg y daith cyffwrdd i bennu pa elfennau i gyflwyno'r gynulleidfa â nam ar eu golwg iddynt.

- Sicrhewch fod y cwmni cyfan yn ymwybodol o bwysigrwydd taith cyffwrdd, i bwy y mae, a pham.

- Cadwch y daith yn gymharol fyr (20 munud ar y mwyaf) – os yw taith yn rhy hir gall fod yn llethol ac yn anodd cofio'r wybodaeth.

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn hysbysebu'r daith cyffwrdd yn glir ac yn hygyrch gyda digonedd o rybudd – byddwch yn glir ynghylch faint o'r gloch y caiff ei chynnal (rhaid i'r cwmni a'r lleoliad gytuno ar hyn).

- Mae llawer o gwmnïau'n dewis cynnal y daith cyffwrdd ryw awr cyn y perfformiad – mae'n ddoeth ystyried ei rhedeg fel rhan o weithgarwch cyn y sioe fel y gall pobl â nam ar eu golwg fynd i'w seddi ar gyfer y perfformiad ychydig cyn i'r tŷ agor.

- Gan mai'r lleoliad yw'r man cyswllt cyntaf i'r gynulleidfa, mae angen i staff ar draws pob adran gael gwybod am deithiau cyffwrdd (a phob math arall o fynediad sy'n cael ei ddarparu), yn arbennig staff y swyddfa docynnau a blaen y tŷ.

“Mae’n teimlo fel pe baech chi’n llawer mwy o ran o rywbeth pan ewch chi ar daith cyffwrdd, rydych chi’n cael cyfarfod â’r actorion a’r cyfarwyddwr – rydych chi’n cael rhyngweithio’n fwy personol a bod yn rhan o’r byd yna. Mae’n gwneud byd o wahaniaeth.”

# 13 Astudiaeth Achos: The Importance of Being Described . . . Earnestly?

## Cysyniad y Sioe

Cafodd y prosiect hwn ei greu a'i ddatblygu gan bobl â nam ar eu golwg ac ar eu cyfer, er mwyn rhoi sylw i'r diffyg arddulliau disgrifio clywedol gwahanol oedd ar gael yng Nghymru ar y pryd.

Mae'r sioe'n dangos cwmni theatr dychmygol yn ceisio llwyfannu fersiwn wedi'i disgrifio o ddrama glasurol Oscar Wilde, ond mae pob math o rwystrau'n codi – yn anad dim hunan-falchder y Cyfarwyddwr.

"Mae'n adlewyrchu'r agweddau at fynediad a chynhwysiant yn niwydiant y celfyddydau ac ar yr un pryd yn arddangos math aml-haen o ddisgrifio clywedol sy'n cynnig dewis o ddehongliad i gynulleidfaoedd â nam ar eu golwg"
(Crëwr/Cyfarwyddwr Chloë Clarke).

Caiff y disgrifio clywedol ei ddarparu gan yr holl gymeriadau trwy'r amser mewn ffordd naturiol nad yw'r gynulleidfa'n sylwi arni, gan achosi i Clarke fathu'r term 'disgrifio clywedol llechwraidd'.

## Y Broses Cynhyrchu/Creu

Aeth y sioe trwy ddau gylch o waith ymchwil a datblygu ac yna grant ar gyfer cynhyrchiad llawn i ymchwilio i'r arddull disgrifio clywedol newydd hwn.

Defnyddiwyd nifer o ymgynghorwyr disgrifio clywedol, yn ogystal ag actorion a thîm cynhyrchu â nam ar eu golwg a disgrifwyr clywedol i helpu i lunio'r disgrifio clywedol er mwyn iddo fod yn weithredol ond yn anweladwy. Arweiniodd y cylch cyntaf o waith ymchwil a datblygu at greu disgrifio clywedol a ychwanegodd at y sioe i'r gynulleidfa â golwg ganddynt gan iddo ddod â llawer o hiwmor, ond nid oedd yn cael ei ddefnyddio digon i roi mynediad i'r gynulleidfa â nam ar eu golwg. Gwnaeth yr ail gylch y gwrthwyneb:

dywedodd cynulleidfaoedd â nam ar eu golwg nad oeddent wedi colli unrhyw wybodaeth o gwbl, ond peidiodd ag ychwanegu at y profiad i'r gynulleidfa â golwg ganddynt. Erbyn adeg y cynhyrchiad llawn cafwyd cydbwysedd. Dywedodd cynulleidfaoedd eu bod wedi mwynhau arddull newydd ac unigryw'r sioe yn fawr, ac roedd mynychwyr â nam ar eu golwg yn ffyddiog bod y disgrifio clywedol wedi ateb y diben yn llwyr fel offeryn mynediad creadigol.

**Fformatau Marchnata Hygyrch**

Oherwydd bod y prosiect wedi cael ei ddylunio gan bobl â nam ar eu golwg, a gyda nam ar y golwg mewn cof, o'r dechrau roedd pob ffordd o'i farchnata yn hygyrch i bobl â nam ar eu golwg.

- Roedd taflenni a phosteri mewn print bras fel gofyniad safonol ac roedd arnynt god QR oedd yn arwain at y fersiwn sain yn Gymraeg a Saesneg.

- Cafodd rhaglen sain ei chreu yn ystod y broses ymarfer.

- Cafodd y ffilm ragflas ei sgriptio i adlewyrchu arddull y disgrifio clywedol a ddarparwyd yn y sioe, gan roi blas o'r hyn oedd i'w ddisgwyl ac ar yr un pryd roedd yn hygyrch ynddi ei hun (roedd ganddi isdeitlau hefyd), yn Gymraeg ac yn Saesneg.

## Rhyngweithio â lleoliadau a sicrhau profiad cadarnhaol i gynulleidfaoedd â nam ar eu golwg

Cysylltodd y cwmni â'r holl leoliadau oedd yn rhaglennu'r sioe i gynnig arweiniad, a rhywfaint o hyfforddiant sylfaenol lle roedd angen, er mwyn sicrhau y byddent yn darparu ar gyfer aelodau o'r gynulleidfa â nam ar eu golwg ac y byddai'r rheiny'n cael profiad da y tu hwnt i'r sioe ei hun. Roedd yn gyfle i ganfod beth oedd y staff yn y lleoliadau hyn yn ei wybod eisoes a pha feysydd yr oedd angen eu gwella. Roedd y staff yn awyddus i gymryd rhan yn y trafodaethau hyn a chawsant fudd o gynnal sioe

oedd yn rhoi mwy o brofiad iddynt o ddarparu ar gyfer cwsmeriaid â nam ar eu golwg. Hwylusodd hyn ryngweithio cadarnhaol a naturiol rhwng staff a chwsmeriaid y lleoliadau, gan olygu bod pobl â nam ar eu golwg yn teimlo’n fwy hyderus wrth fynychu’r lleoliadau hyn a’u bod yn debygol o ymweld â nhw eto. Roedd trefnu hyn wedi cymryd ond ychydig iawn o ymdrech lle roedd lleoliadau’n agored ac yn fodlon rhoi rhyw ddeg munud i gael y sgwrs, ond cafodd effaith fawr ar brofiad y gynulleidfa â nam ar eu golwg.

Roedd cyfathrebu â’r lleoliadau ynghylch marchnata hygyrch yn allweddol hefyd – cynhaliwyd trafodaethau rhwng y cwmni a’r lleoliad er mwyn sicrhau bod fformatau print bras a sain o gopi’r sioe ar gael ar wefan y lleoliad ac yn ei lyfrynnau. Roedd staff yr adran marchnata mewn rhai lleoliadau’n fwy ymwybodol o fformatau hygyrch a’r hyn yr oedd eu sefydliad yn ei gynnig o ran cynnwys gwe hygyrch (e.e. tudalen mynediad) nag eraill, ond llwyddodd pob lleoliad i ddarparu gwybodaeth hygyrch heb ddim trafferth. Gwerthwyd pob

tocyn i’r sioe yn y lleoliadau oedd yn arbennig o ragweithiol wrth ei hyrwyddo hi a’i nodweddion o ran mynediad.

## Ymateb y Gynulleidfa

Roedd yr ymateb i’r darn hwn yn hynod o gadarnhaol oddi wrth aelodau o’r gynulleidfa â golwg ganddynt a’r rhai â nam ar eu golwg, oherwydd fe gynigiodd brofiad yr oedd cynulleidfaoedd â nam ar eu golwg yn gallu uniaethu ag ef ac oherwydd bod y disgrifio clywedol wedi dwysau’r comedi i’r bobl â golwg ganddynt a’r rhai â nam ar eu golwg fel ei gilydd. Dywedodd llawer ei fod yn ddarn gwahanol iawn i unrhyw beth yr oeddent wedi’i weld erioed ac roeddent yn falch eu bod wedi cael golwg ar bersbectif nad oeddent wedi’i ystyried o’r blaen.

# 14 Rhestr Wirio

Wrth gynllunio i wneud eich gwaith yn hygyrch, dylech:

- Ystyried mynediad i bobl â nam ar eu golwg o ddechrau eich prosiect – yn arbennig ar y cam ysgrifennu.

- Trafod mynediad i bobl â nam ar eu golwg gyda'ch person cyswllt yng Nghyngor Celfyddydau Cymru.

- Ymchwilio i ddisgrifwyr ac ymgynghorwyr yn eich ardal chi (gweler yr adran Cysylltiadau Defnyddiol).

- Cynnal trafodaethau am eich prosiect, eich amserlen a'ch nodau, gofyn am ddyfynbrisiau gan ddisgrifwyr ac ymgynghorwyr disgrifio clywedol – a chyllidebu yn unol â hynny.

- Cyllidebu ar gyfer marchnata mewn fformatau hygyrch (e.e. print bras, Braille, sain) a gwaith estyn allan (gan gynnwys teithio ac ati).

- Ystyried sut i wneud i'ch gwaith marchnata hygyrch apelio'n greadigol.

- Ar ôl cynnal trafodaethau, penderfynu pa arddull disgrifio clywedol yw'r gorau i chi a threfnu disgrifiwr a/neu ymgynghorydd disgrifio clywedol.

- Dod ag ymgynghorwyr disgrifio clywedol i mewn i ymarferion neu waith ymchwil a datblygu ar adeg gynnar ac yna o bryd i'w gilydd.

- Ymgysylltu â'r gymuned leol o bobl â nam ar eu golwg – gan fynd allan i gyfarfod â nhw.

- Parhau i drafod gyda lleoliadau i bennu pwy sy'n gwneud beth i ddarparu a hyrwyddo mynediad.

- Lle bo modd, mynd i leoliadau i drafod sut y byddant yn rhyngweithio â chynulleidfaoedd â nam ar eu golwg ac i ymchwilio i'r gofod fel y gallwch, os gofynnir ichi, roi gwybod i gynulleidfaoedd â nam ar eu golwg amdano eich hun.

- Sicrhau bod yr holl wybodaeth angenrheidiol wedi cael ei rhoi i staff ar draws adrannau'r lleoliadau a bod staff y swyddfa docynnau yn ei chyfleu i gwsmeriaid.

- Tynnu lluniau o ofodau'r lleoliadau hyn y gallwch eu hychwanegu i gyfryngau cymdeithasol gyda disgrifiadau cyn y sioe.

- Parhau i roi cyhoeddusrwydd i fynediad (hygyrchedd) trwy gyfryngau cymdeithasol ac unrhyw gyfryngau perthnasol eraill (radio RNIB Connect, cylchlythyrau llafar, Celfyddydau Anabledd Ar-lein, grwpiau lleol).

- Darparu cyfarwyddiadau clir ynghylch sut i gyrraedd a gwybodaeth glir am drafnidiaeth.

- Darparu gwybodaeth glir ynghylch beth i'w ddisgwyl wrth ddod i'r sioe.

- Sicrhau bod y lleoliadau'n anfon allan raglenni sain, lle bônt ar gael, cyn y perfformiad, i unrhyw un sy'n ystyried ei hun yn berson â nam ar ei olwg.

- Cyn y perfformiad, gwirio eto bod staff y swyddfa docynnau a blaen y tŷ / tywyswyr yn hyderus wrth ryngweithio gyda phobl â nam ar eu golwg.

- Lle bo modd, sicrhau y gall pobl â nam ar eu golwg gadw seddi yn y blaen - neu le bynnag y byddant agosaf at y digwydd - ymlaen llaw neu ar ôl cyrraedd.

- Defnyddio ffyrdd hygyrch (e.e. recordiadau sain) i gasglu adborth oddi wrth gynulleidfaoedd. Dylech geisio cael adborth ar eu profiad cyfan, nid y perfformiad yn unig, rhag ofn bod angen ymdrin â rhywbeth gyda'r lleoliad.

# 15 Cysylltiadau Defnyddiol

Ar gyfer disgrifwyr clywedol ac ymgynghorwyr disgrifio clywedol yng Nghymru, cysylltwch ag:

**Audio Description South Wales**
adsouthwales@gmail.com
07968139020

**Chloë Clarke**
chloejayclarke@gmail.com

**Celfyddydau Anabledd Cymru**
post@dacymru.com
029 2055 1040

**Word of Mouth**
wordofmouth74@yahoo.co.uk

Gwasanaethau disgrifio clywedol eraill sydd ar gael:

**VocalEyes**
https://www.vocaleyes.org

Sefydliadau i gysylltu â nhw i gael gwybodaeth am nam ar y golwg a hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o nam ar y golwg:

**RNIB Cymru**
https://www.rnib.org.uk/wales-cymru-1
helpline@rnib.org.uk

**RNIB Connect**
https://www.rnib.org.uk/rnibconnect

**Extant**
https://extant.org.uk
info@extant.org.uk
020 7820 3737

**Chloë Clarke**
chloejayclarke@gmail.com

**Sightlife** (Sefydliad y Deillion Caerdydd yn flaenorol)
https://sightlife.wales
ask@sightlife.wales
029 2039 8900

**UCAN Productions**
https://www.ucanproductions.org
info@ucanproductions.org
**029 2087 0554**

**Cyngor Cymru i'r Deillion**
http://www.wcb-ccd.org.uk
staff@wcb-ccd.org.uk
029 2047 3954

**Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru**
http://www.nwsb.org.uk/cy
admin@nwsb.org.uk
01248353604

Sefydliadau i gysylltu â nhw i gael gwybodaeth am fynediad a'r celfyddydau:

**Audio Description Association**
http://audiodescription.co.uk
info@audiodescription.co.uk

**Celfyddydau Anabledd Cymru**
https://www.disabilityartscymru.co.uk
post@dacymru.com
029 2055 1040

**Graeae Theatre Company**
https://graeae.org
info@graeae.org
020 7613 6900

**UCAN Productions**
https://www.ucanproductions.org
info@ucanproductions.org
029 2087 0554

**Pwyllgor Aelodau B/byddar ac Anabl Equity**
https://www.equity.org.uk/getting-involved/committees/deaf-and-disabled-members-committee/
https://www.facebook.com/EquityDDMC/

ddmcommittee@equity.org.uk

**Elbow Room Theatre Company**
www.elbowroomtheatre.com
elbowroomtheatre@gmail.com

**Hynt**
https://www.hynt.co.uk/cy/
info@hynt.co.uk

**Celfyddydau Anabledd Ar-lein**
https://disabilityarts.online
cathy@disabilityartsonline.org.uk

**Unlimited**
https://weareunlimited.org.uk
info@weareunlimited.org.uk

Enwau Twitter defnyddiol i'w tagio wrth hyrwyddo perfformiadau hygyrch

@ChloeClarkeAD

@DACymru

@ElbowRoomTC

@Arts_Wales_ (ACW)

@RNIB

@RNIBCymru

@RNIBRadio

@CardiffBlind (CIB)

@UCANProduction

@weareunltd (Unlimited)

@disabilityarts

@wordofmouth74

@NFBUK
(National Foundation of the Blind of the UK)

@nwsb1
(Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru)

@DisabilityWales

@WalesAccessible

@thatLouiseFryer

@VocalEyes

@graeae

@Equity_

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

www.celf.cymru